Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Cyngor y Gweithlu Addysg

Penodi Aelodau

Dyddiad cau
18 Chwefror 2026 am 16:00

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Chwilio am aelodau i Gyngor y Gweithlu Addysg 2
Ffeithiau allweddol am y penodiadau 2
Amserlen fras 2
Sut i wneud cais 3
Gwneud cais drwy gystadleuaeth agored a theg (dau benodiad) 3
Gwneud cais fel enwebai (dau benodiad) 3
Canllawiau i bob ymgeisydd 4
Datganiad am Amrywiaeth 4
Cysylltiadau 5
Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor 6
Manyleb y person 6
Gofynion i fod yn gymwys 7
Meini prawf anghymhwyso 7
Gwrthdaro rhwng buddiannau 8
Diwydrwydd Dyladwy 8
Safonau mewn bywyd cyhoeddus 8
Atodiad B: Rolau a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg 9
Beth yw Cyngor y Gweithlu Addysg? 9
Beth mae CGA yn ei wneud? 9
Beth yw rôl y Cyngor? 9
Atodiad C: Y broses ddethol 11
Ymholiadau 12
Os na fyddwch yn gyfan gwbl fodlon 12

Chwilio am aelodau i Gyngor y Gweithlu Addysg

Rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) fod â 14 aelod, gyda phob un ohonynt wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru. Caiff saith aelod eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg a chaiff saith aelod eu recriwtio yn dilyn enwebiadau gan sefydliadau a restrir yn Atodlen 2 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd.

Ar hyn o bryd mae pedwar lle ar gyfer aelodau y bydd eu cyfnod cychwynnol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2027. Gellir caniatáu ail gyfnod am bedair blynedd arall. Yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i lenwi dau le gwag drwy gystadleuaeth agored a theg ac dau lle gwag drwy enwebu.

Ffeithiau allweddol am y penodiadau

Lleoliad:	Bydd angen cyfuniad o bresenoldeb wyneb yn wyneb a phresenoldeb rhithwir. Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd a chynhelir cyfarfodydd rhithwir drwy Microsoft Teams.
Ymrwymiad Amser:	Bydd angen neilltuo hyd at 12 diwrnod y flwyddyn.
Hyd y penodiad:	Bydd pob penodiad yn dechrau ar 01 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2027 (gyda phosibilrwydd o ailbenodi wedi'r dyddiad hwn).
Tâl:	Ni fydd aelodau'n cael eu talu am eu gwasanaethau ond byddant yn cael eu had-dalu am gostau teithio a chynhaliaeth. O ran aelodau sy'n hunangyflogedig neu sy'n cael eu cyflogi dan gontract lle mae'r cyflogwr yn gwneud trefniadau llanw ychwanegol (am gost ychwanegol iddynt hwy), caniateir iddynt hawlio cyfradd ddyddiol benodedig i gynorthwyo â rhyddhau'r aelod.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	18 Chwefror 2026 am 16:00
Llunio rhestr fer:	Diwedd Chwefror 2026
Cyfweliadau:	Cynnar Mawrth 2026

Sut i wneud cais

Mae'r ddogfen hon yn darparu manylion ynghylch rôl yr aelodau a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r broses ddethol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr holl nodiadau canllaw yma, gan roi sylw arbennig i'r meini prawf cymhwystra ac anghymhwyso yn Atodiad A.

Gwneud cais drwy gystadleuaeth agored a theg (dau benodiad)

I wneud cais drwy gystadleuaeth agored a theg, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-c6bc23de574d/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, drwy eich cyfrif. Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Gwneud cais fel enwebai (dau benodiad)

Os ydych wedi cael eich enwebu i wneud cais gan unrhyw un o'r sefydliadau a restrir yn Atodlen 2, mae'r broses ymgeisio ychydig yn wahanol. Gofynnwn i ymgeiswyr enwebedig ddarparu'r wybodaeth drwy e-bost yn hytrach na thrwy'r system ar-lein. Mae'r wybodaeth y gofynnwn amdani yr un fath â'r wybodaeth a gyflwynir drwy'r system ar-lein, ac eithrio bod gofyn ichi ddarparu manylion y sefydliad sydd wedi eich enwebu. Rhaid i'r sefydliad enwebu gysylltu â Llywodraeth Cymru i gadarnhau eich bod wedi cael eich enwebu ganddo. Bydd y sefydliad hefyd yn anfon ffurflen ichi i'w llenwi. Dylid anfon y ffurflen hon ar e-bost i ApwyntiadauCGA@llyw.cymru, ynghyd â'ch datganiad personol a'ch CV.

Os byddwch yn dewis peidio â gwneud cais drwy'r llwybr hwn, rhowch wybod i'r sawl sy'n eich enwebu. Er cwrteisi i'r rhai sy'n enwebu rhywun i ymgeisio, byddwn yn rhoi cadarnhad iddynt o enwau'r rhai sydd wedi gwneud cais.

Nid yw gwneud cais drwy'r llwybr hwn yn eich atal rhag gwneud cais yn y gystadleuaeth agored a theg. Mae croeso ichi lenwi'r ffurflen gais ar-lein neu, os yw'n well gennych, rhowch wybod yn eich e-bost yr hoffech i'ch cais gael ei ystyried o dan y ddau lwybr.

Canllawiau i bob ymgeisydd

Bydd angen i bob ymgeisydd lenwi ffurflen (ar-lein ar gyfer y gystadleuaeth agored ac mewn dogfen Word ar gyfer enwebiadau). Dylai ceisiadau gynnwys datganiad personol a CV (i'r rhai sy'n gwneud cais fel enwebai, mae'r CV yn rhan o'r ffurflen gais Word).

Y ***datganiad personol*** yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol a nodir ym manyleb y person. Chi sy'n penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio pa ran y gwnaethoch chi ei chwarae wrth gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Mae'r datganiad personol yn unig wedi'i gyfyngu i ddwy dudalen a gall eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys datganiad am sut rydych yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a chymhwyso a nodir yn Atodiad A.

Sicrhewch fod eich ***CV*** yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swyddi diweddaraf a'ch dyddiadau yn y rolau hynny. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol a manylion eich cofrestriad CGA, os yw'n berthnasol.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau o fyrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru - sef pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Rydym yn gweithredu o dan y cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y cyfle dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff wneud ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef "*amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd*".

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'n gyffredinol y lefel cymhwystra ar gyfer y swydd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a nodir yn rhai hanfodol. Bydd y ffurflen gais yn gofyn a hoffech gael eich ystyried o dan y cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl. Bydd hefyd yn rhoi'r cyfle ichi roi gwybod inni am unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnoch er mwyn gallu dod i gyfweliad.

Cysylltiadau

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y broses ddethol neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch i wneud cais am y rolau hyn, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi chi i wneud cais, anfonwch e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Cyngor y Gweithlu Addysg a rôl aelodau ei Gyngor, cysylltwch â Lisa Winstone (Prif Weithredwr CGA) neu Louise Deeley (Swyddog Llywodraethu Corfforaethol CGA). Gellir cysylltu â hwy dros y ffôn (029 2046 0099) neu ar e-bost (corporate.governance@ewc.wales).

Atodiad A: Rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys 14 aelod gan gynnwys y Cadeirydd. Caiff y Cadeirydd ei ethol o blith yr aelodau yn unol â Deddf Addysg (Cymru) 2014 a Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae'r aelodau'n cynrychioli ystod o fuddiannau'r gweithlu addysg yng Nghymru. Y Cyngor sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer CGA ac sy'n gyfrifol am ei lywodraethu.

Disgwylir i aelodau'r Cyngor gynnig barn annibynnol ar strategaeth, perfformiad ac atebolrwydd y Cyngor. Rhaid i aelodau weithredu'n gorfforaethol er budd y Cyngor. Yn ei dro mae hynny'n golygu gweithredu er budd ehangach ymarferwyr cofrestredig, dysgwyr a'r cyhoedd, yn hytrach nag er budd etholaeth benodol. Dylai aelodau wneud penderfyniadau er budd y Cyngor heb ffafriaeth i unrhyw sefydliad neu gymdeithas, boed yn addysgol neu fel arall.

Rhaid i'r aelodau bob amser gofio'r angen am uniondeb ym mhopeth a wnânt. Mae gan yr aelodau gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus a'i incwm o ffioedd cofrestru.

Disgwylir i bob aelod gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau'r Cyngor. Hefyd, fel y nodir ym mharagraff 3(5) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, mae aelodau'r Cyngor yn gweithredu fel unigolion ac nid fel cynrychiolwyr o unrhyw sefydliad neu gorff y maent yn perthyn iddo, nac unrhyw berson, sefydliad neu gorff a'u henwebodd.

Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, bydd yn rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer cael eich penodi.

Y ***meini prawf hanfodol*** y bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus eu dangos i'r panel dethol yw:

1. dealltwriaeth o swyddogaethau ac amcanion strategol CGA, a blaenoriaethau ei randdeiliaid.
2. y gallu i ddarllen, dirnad a dadansoddi dogfennau a chyfrannu at drafodaethau ar lefel strategol.
3. cyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos y gallu i wrando, dylanwadu a herio'n adeiladol.
4. y gallu i greu cysylltiadau effeithiol a gweithio fel rhan o dîm, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn cyd-weithwyr.
5. ymrwymiad i faterion cydraddoldeb, gan adnabod a herio arferion sy'n gwahaniaethu.
6. dealltwriaeth ac empathi tuag at y Gymraeg ac ymrwymiad i sicrhau bod yn y Cyngor yn cydymffurfio â *Safonau'r Gymraeg*.

7. ymrwymiad i *Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus* Nolan a'r egwyddorion ychwanegol a amlinellir yng *Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001*.

Mae CGA wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn glynu wrth Safonau'r Gymraeg. Felly, mae'n ***ddymunol*** i ymgeiswyr feddu ar sgiliau Cymraeg i ymgymryd â dyletswyddau aelod o'r Cyngor.

Gofynion i fod yn gymwys

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion sy'n rheoli penodiadau i CGA, a bennir yn rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014, ni fydd neb yn gymwys i'w benodi:

(a) pan fo'r person wedi ei wahardd rhag cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

(b) pan fo'r person wedi ei wahardd rhag addysgu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142(1)(a) o Ddeddf Addysg 2002;

(c) pan fo'r person wedi ei wahardd rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes yn rhinwedd gorchymyn gwahardd o dan adran 141B o Ddeddf Addysg 2002;

(d) pan wneir gorchymyn disgyblu mewn cysylltiad â'r person o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1998 a bod y person yn dod yn anghymwys i'w gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwnnw;

(e) pan fo gorchymyn disgyblu wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r person o dan adran 26(3) o Ddeddf 2014 a bod y person yn dod yn anghymwys i gael ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 1998 yn rhinwedd y gorchymyn disgyblu hwn;

(f) pan fo'r person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei gyflogi fel athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol yn rhinwedd gorchymyn sydd wedi ei wneud—

  a. gan Dribiwnlys Ysgolion Annibynnol o dan adran 470 o Ddeddf 1996, neu

  b. gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 471 o Ddeddf 1996; neu

(g) pan fo'r person yn anghymwys i gael ei gofrestru fel athro neu athrawes, neu wedi ei anghymhwyso rhag bod yn athro neu athrawes mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

Meini prawf anghymhwyso

Sylwch, rydych yn anghymwys i wneud cais os ydych:

(a) wedi'ch cael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'ch dedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o dri mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy.

(b) yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu sydd wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr.

(c) wedi cael penodiad blaenorol gyda'r Gyngor y Gweithlu Addysg wedi'i derfynu ar y sail nad oedd yn fuddiol nac er lles rheolaeth dda'r corff ichi barhau yn y swydd.

(d) yn destun gorchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Gyngor y Gweithlu Addysg yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Wrth arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag aelodaeth y Cyngor, dylech fod yn ymwybodol bod rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â pharagraff 3(4) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014—

(a) rhoi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod yr aelodaeth honno yn cynnwys personau â'r profiad a'r sgiliau y mae eu hangen i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol, a

(b) sicrhau bod y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn bersonau cofrestredig, neu wedi bod yn bersonau cofrestredig yn ddiweddar.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Gyngor y Gweithlu Addysg, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac a gyhoeddir ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill o bosibl, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am unrhyw ganfyddiadau yn sgil gwiriadau diwydrwydd dyladwy. Bydd pob penodiad yn ddarostyngedig i broses fetio diogelwch.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

Atodiad B: Rolau a chyfrifoldebau Cyngor y Gweithlu Addysg

Beth yw CGA?

CGA yw'r rheoleiddiwr proffesiynol annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Gyda thua 90,000 wedi cofrestru, dyma gorff rheoleiddio mwyaf Cymru ac mae ganddo'r gofrestr ehangaf o ymarferwyr addysg yn y byd.

Prif nodau CGA yw:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru
- cynnal a chodi safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac eraill yn y gweithlu addysg sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru
- diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd yn gyffredinol a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg

Beth mae CGA yn ei wneud?

Prif swyddogaethau CGA yw:

- sefydlu a chynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg
- cynnal Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg
- ymchwilio a gwrando ar honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai godi cwestiynau am addasrwydd ymarferydd cofrestredig i ymarfer
- achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon a monitro eu cydymffurfiaeth â meini prawf cenedlaethol
- darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg ac addysgu a dysgu
- monitro prosesau sefydlu a gwrando apelau sefydlu (pan fo'n berthnasol) ar gyfer athrawon
- hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg
- ymgymryd â gwaith penodol mewn perthynas ag addysgu a dysgu ar gais Llywodraeth Cymru

Beth yw rôl y Cyngor?

Yn unigol, ac ar y cyd, disgwylir i aelodau'r Cyngor:

- sicrhau y caiff safonau uchel o ran gweinyddu a gwneud penderfyniadau eu cyrraedd bob amser
- sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y Cyngor drwy oruchwylio'r gwaith o lunio'r Cynllun Strategol
- sicrhau'r canlyniadau disgwyliedig drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt

- sicrhau nad yw'r Cyngor yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau neu ei swyddogaethau, p'un a yw hynny wedi'i ddiffinio mewn statud neu fel arall, neu drwy unrhyw gyfyngiadau ar fynd i wariant a nodir mewn unrhyw delerau ac amodau ariannol gan Lywodraeth Cymru - fel arfer caiff yr aelodau eu cynghori gan Brif Weithredwr y Cyngor ar y materion hyn
- gweithredu'n annibynnol fel unigolion a chofio peidio â chyfleu barn y cyflogwyr/sefydliadau y mae ganddynt gysylltiad â hwy
- parchu polisïau a chyd-benderfyniadau'r Cyngor yn gyhoeddus. Rhaid i aelodau weithio mewn modd cyfrifol gydag aelodau eraill a rhaid iddynt drin ei gilydd yn gwrtais ac yn barchus i hyrwyddo cysylltiadau gwaith adeiladol.

Mae gan CGA y pwyllgorau sefydlog canlynol, yn cynnwys aelodau'r Cyngor:

- Y Pwyllgor Gweithredol
- Y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio
- Y Pwyllgor Archwilio a Chraffu

Gellir cael rhagor o wybodaeth am waith CGA drwy anfon e-bost i information@ewc.wales neu drwy fynd i https://www.ewc.wales

Atodiad C: Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, gan gyfeirio at sut rydych yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a manylion unrhyw gofrestriad presennol neu flaenorol â CGA.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Christopher Warner, Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys hefyd Geraint Williams, Cadeirydd EWC, a Sarah McCathy, Prif Weithredwr CSW, fel Aelod Annibynnol o'r Panel. Disgwyliwn y bydd y panel, yn ystod mis Chwefror, wedi penderfynu pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Mawrth. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, mae'n bosibl y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei drosglwyddo i'w ystyried gan y panel sy'n llunio'r rhestr fer. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol** ar gyfer y penodiad, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os nad yw'r dyddiad a drefnir yn gyfleus ichi, byddwn yn ceisio ei aildrefnu, ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi, neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru neu gan ApwyntiadauCGA@llyw.cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y penodiad. Bydd yr ymgeiswyr a fydd, ym marn y panel, yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Ysgrifennydd y Cabinet, a hi fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall yr Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn penderfynu. Os felly, bydd hi'n cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei chynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch lythyr gan yr Ysgrifennydd y Cabinet yn eich penodi yn aelod o'r Cyngor. Bydd hyn yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn naill ai drwy'r ganolfan ymgeisio, os ydych chi wedi gwneud cais ar-lein, neu ar e-bost gan ApwyntiadauCGA@llyw.cymru os cawsoch eich enwebu i wneud cais. Rydym yn sylweddoli bod ymgeisio am swyddi yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech a bod cael adborth felly yn rhan werthfawr o'r broses. O'r herwydd, bydd yr e-bost yn nodi â phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os na fyddwch yn gyfan gwbl fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych gŵyn am y ffordd y deliwyd â'ch cais, anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru. Neu gallwch ysgrifennu at: Office of the Commissioner for Public Appointments
G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.